**Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Natural Resources Wales**

Ein cyf/Our ref:

Ty Cambria / Cambria House
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road
Caerdydd / Cardiff
CF24 0TP / CF24 0TP

Ebost/Email:
Chiefexecutivesoffice@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Ffôn/Phone: 0300 065 4453

Mr Nick Ramsay
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

17th October 2018

Annwyl Nick –

**Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Dydd Llun, 24 Medi 2018**

Yn dilyn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 24 Medi 2018, gwnaethoch ofyn bod rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu ynghylch faint o bren a gynhyrchwyd yng Nghymru a gafodd ei brosesu yng Nghymru yn 2017-18.

Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl rhoi'r union ffigurau ar gyfer faint o bren a dyfir yng Nghymru sy'n cael ei brosesu yng Nghymru, oherwydd y ffordd y mae gwybodaeth o'r fath yn cael ei chofnodi, mae hyn yn arbennig o wir am y sector coetir preifat, a fydd yn cyfrif am tua 50-60% o'r cynaeafu mewn unrhyw flwyddyn.

Fodd bynnag, ein hamcangyfrif gorau ar gyfer y cyfnod 2017-18, yw bod tua 93% neu'r 622,000 tunnell o bren a dyfwyd yng Nghymru ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru wedi cael eu prosesu yng Nghymru.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto mewn perthynas â'r taliad i'n Prif Weithredwr blaenorol.

Cofion cynnes

Clare

Clare Pillman
**Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru**